| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 23 Mai 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl:** | **Maint a Chyfansoddiad y Pwyllgor Cynllunio.** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am y newidiadau sydd angen i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i ddeddfwriaeth sy'n gorchymyn newidiadau i faint a chyfansoddiad Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth yn gosod cyfyngiadau ar nifer yr aelodau sydd â hawl i eistedd ar Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Dylai'r Cyngor gadarnhau maint y Pwyllgor Cynllunio ac awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

3.2 Dylai'r Cyngor awdurdodi'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau sydd angen i gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu gofynion cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio fel yr amlinellir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017.

3.3 Dylai'r Cyngor gefnogi'r ymagwedd a gynigir yn yr adroddiad ar gyfer penodi Aelodau i'r Pwyllgor Cynllunio o wardiau aml-aelod.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Diwygiwyd Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Ddeddf Gynllunio (Cymru) 2015 er mwyn rhoi grymoedd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn rhagnodi maint a chyfansoddiad Pwyllgorau Cynllunio awdurdodau cynllunio lleol.

4.2 Mae Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r grym hwn i greu Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017 (Rheoliadau Pwyllgorau).

4.3 Mae Rheoliadau Pwyllgorau'n nodi bod yn rhaid i Bwyllgor Cynllunio gael dim llai nac 11 a dim mwy na 21 Aelod.

4.4 Ni ellir cael mwy nac un Aelod o unrhyw ward benodol ar y Pwyllgor. Mae hyn yn golygu, mewn wardiau aml-aelod mai dim ond un Aelod o’r ward honno all fod ar y pwyllgor ar unrhyw amser penodol.

4.5 Wrth ddyrannu seddi ar y Pwyllgor Cynllunio, yn amlwg, lle mae pob Aelod sy'n cynrychioli ward aml-aelod yn dod o'r un grŵp, bydd y cwestiwn o ran pa un, os o gwbl, o'r Aelodau hynny sy'n cael eu penodi i'r Pwyllgor yn fater i Arweinydd y Grŵp dan sylw. Lle mae’r Aelodau sy’n cynrychioli ward aml-aelod yn dod o wahanol Grwpiau, awgrymir fod y cwestiwn o ran pa un, os o gwbl, o’r Aelodau hynny a benodir i’r Pwyllgor yn un i’w bennu drwy gytundeb rhwng Arweinwyr y Grwpiau perthnasol. Lle na chaiff cytundeb ei sicrhau, awgrymir na fydd un o’r Aelodau ar gyfer y ward honno yn cael eu penodi i’r Pwyllgor hyd nes y caiff cytundeb ei sicrhau.

4.6 Bydd methiant i gydymffurfio â Rheoliadau'r Pwyllgor yn annilysu trafodion y Pwyllgor Cynllunio.

4.7 Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi creu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017 (Rheoliadau Rheolau Sefydlog) a ddaeth i rym ar 5 Mai.

4.8 Mae’r Rheoliadau Rheolau Sefydlog yn nodi bod yn rhaid i’r cworwm ar gyfer Pwyllgor Cynllunio fod yn o leiaf 50% o nifer llawn yr Aelodau wedi ei dalgrynnu i’r rhif llawn agosaf, a gwahardd y defnydd o eilyddion.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni ddylai’r penderfyniad arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

7.1 Nid yw’n ofynnol cael Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Nid oes cyfle wedi bod i ymgynghori ag Archwilio ar y mater hwn. Ymgynghorwyd ag Arweinwyr y Grwpiau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae risg os na chaiff y gofynion deddfwriaethol hyn eu cyflwyno y bydd y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio yn cael eu hannilysu.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Rheoliadau Maint a Chyfansoddiad Pwyllgorau Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cymru) 2017.
Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017